**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/KW/0209/20

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

23 Ionawr 2020

Annwyl Lynne

Diolch am y cyfle i ddod i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr i roi tystiolaeth ynghylch cynlluniau Prif Grŵp Gwariant Addysg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.

Nodwyd nifer o bwyntiau gweithredu yn dilyn y sesiwn graffu, ac mae ymateb i bob un o'r rhain i'w gweld isod. Darperir ymateb hefyd ar gyllid ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n sipsiwn, Roma a theithwyr. Nid oedd modd codi hyn yn y Pwyllgor oherwydd prinder amser.

**Cyllid ar gyfer addysg o fewn Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol**

Bydd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ysgrifennu at eich Pwyllgor chi ac at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i esbonio'r trefniadau technegol ar gyfer blaenoriaethu cyllid ar gyfer cyflog a phensiynau athrawon a gafodd ei gynnwys yn setliad dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2020-21.

Ar 4 Medi, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei setliad ar y Cylch Gwario. Roedd hwn yn cadarnhau bod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 £593m yn uwch na llinell sylfaen 2019-20, yn sgil newidiadau yng nghyllidebau adrannau Llywodraeth y DU. Roedd hyn yn cynnwys cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer Addysg o £196m.

Cyhoeddodd y Canghellor ddyraniad tair blynedd o £7.1bn i ysgolion yn Lloegr, ond dim ond setliad blwyddyn ar gyfer 2020-21 a roddwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU. Ni roddwyd yr un gallu i ni, felly, i ddarparu sicrwydd i ysgolion yng Nghymru.

Mae'r ychwanegiadau i setliad llywodraeth leol a chyllid newydd arall i ysgolion a gofal cymdeithasol yn dod i dros £220m yn 2020-21 - mae hyn yn fwy na'r hyn a gawsom yn y Cylch Gwario mewn perthynas ag elfen ysgolion y cyllid canlyniadol (tua £150m o £196m) a'r elfen gofal cymdeithasol (tua £59m) a roddwyd yn Lloegr.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y mae ein cynigion cyllidebol drafft yn ei adlewyrchu, mae gan Brif Grŵp Gwariant Addysg £1.8bn ar gyfer 2020-21, sy'n gynnydd o £86m ar gyfer addysg.

**Monitro £15m ar gyfer dysgu proffesiynol**

Rydym yn derbyn adroddiadau bob tymor gan bob rhanbarth ar y mynediad i'r rhaglen genedlaethol o ddysgu proffesiynol. Rydym hefyd yn sicrhau bod cynlluniau Dysgu Proffesiynol ysgolion yn cael eu cymeradwyo gan eu Cynghorwyr Herio, gan ddefnyddio meini prawf heriol o ansawdd a sicrhau bod ysgolion yn cyhoeddi eu cynlluniau Dysgu Proffesiynol, fel bod modd i'r cymunedau perthnasol ac arbenigwyr yn y maes graffu arnynt. Byddwn yn parhau i fonitro'r broses hon drwy strwythur llywodraethiant y rhaglen.

**Ymchwil ac Arloesi**

Mae'r naratif isod yn adlewyrchu'r rhaglenni ehangach sy'n gysylltiedig â chyfres raglenni SMART sy'n cefnogi arloesi, yn ogystal â Sêr Cymru. Caiff y Rhaglenni hyn eu cydgyllido â'r Cronfeydd Strwythurol. Cyfraniad blwyddyn, felly, yw'r gyllideb a ddyrennir ar gyfer 2020/21, ac nid yw'n adlewyrchu cyfanswm y buddsoddiad. Mae'n anodd, felly, asesu effaith un flwyddyn yn unig o gyllid Llywodraeth Cymru.

Cyfres Raglenni SMART Llywodraeth Cymru

Mae ein cyfres o raglenni SMART yn gwneud 3 peth o dan un ambarél:

- Darparu cyngor a chanllawiau ar bob elfen o ymchwil a datblygu
- Rhoi cyllid grant i brosiectau ymchwil a datblygu corfforaethol cymwys
- Rhoi cyllid tuag at gydbrosiectau masnachol academaidd/busnes

Cyllidebau gros rhaglenni 2014-23 (gallai'r prosiectau redeg tan ddiwedd y cyfnod hwn):

| **SMART** | LIC | ERDF | Y Sector Preifat | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Arloesedd SMART | £7.5m | £11.0m | £0.0m | £18.5m |
| SMART Cymru | £0.0m | £27.3m | £36.1m | £63.4m |
| Arbenigedd SMART | £1.3m | £30.3m | £19.7m | £51.3m |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **£8.8m** | **£68.6m** | **£55.8m** | **£133.2m** |

Mae pob £1 gan Lywodraeth Cymru a fuddsoddir yn SMART yn creu mwy na £15 ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a buddsoddiad sector preifat. Dyma raglenni unigol cyfres SMART:

Mae **Arloesedd SMART** yn darparu cyngor a chymorth arloesi arbenigol ar gyfer busnesau Cymru drwy dîm o arbenigwyr ledled Cymru. Mae'n canolbwyntio ar gynyddu gallu busnesau Cymru i arloesi drwy eu helpu i fuddsoddi mewn gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi cynaliadwy drwy gyngor, canllawiau ac ymgynghorwyr arbenigol ar waith ymchwil, datblygu, gweithgynhyrchu uchel ei werth, dylunio arloesol, eiddo deallusol, arloesi agored a masnacheiddio syniadau newydd.

Cyllid Arloesedd SMART ers 2014:

| | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru & ’r Cymoedd | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| ERDF | £3.7m | £7.3m | £11.0m |
| LIC | £3.7m | £3.8m | £7.5m |
| **Cyfanswm** | **£7.4m** | **£11.1m** | **£18.5m** |

Ers 2014 (tan fis Mehefin 2019), ar ôl dilyn Cynllun Gweithredu Diagnostig ac Arloesi, mae Arloesedd SMART wedi:

- gweithio gyda dros **2,200 o gwmnïau** ac
- annog **305 o fusnesau** i geisio cyllid cystadleuol gan Innovate UK a Horizon 2020.

Mae **SMART Cymru** yn cydfuddsoddi i annog busnesau i roi prosesau arloesol ar waith a gwneud gwaith ymchwil a datblygu. Ei nod yw cydfuddsoddi mewn gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi ym myd busnes yng Nghymru i sicrhau twf cynaliadwy. Ei sail yw ein Cronfa Dyfodol Economaidd ac mae'n darparu cyllid ar gyfer busnesau sydd â phrosiectau sy'n rhoi sylw i elfennau'r Alwad i Weithredu. Mae'r rhain yn cynnwys: Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlysoedd; Ymchwil a Datblygu, Awtomatiaeth a Digitaleiddio.

Mae'n darparu cyllid ar gyfer pob cam o brosiect ymchwil a datblygu er mwyn creu cynnyrch a phrosesau newydd:

- Ymarferoldeb
- Ymchwil Ddiwydiannol
- Datblygu Arbrofol
- Defnyddio

Mae cyllid Taleb Arloesi a Mwy yn cefnogi busnes i weithredu proses newydd drwy roi sylw i'r holl ofynion busnes (addasu adeiladau, comisiynu, hyfforddi ac ati). Mae Talebau Arloesi ar gael ar gyfer gwasanaethau 3ydd parti a chyfarpar cyfalaf technoleg newydd.

Ers 2014:

- Mae SMART Cymru wedi cefnogi **476** o brosiectau
- Rydym wedi gweithio gyda **362** o fusnesau
- Mae SMART Cymru wedi darparu grantiau o **£18.6m**
- Gwariwyd cyfanswm o **£44.7m** ar waith ymchwil a datblygu

Mae **Arbenigedd SMART** yn cefnogi prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol rhwng busnesau a chyrff ymchwil, a arweinir gan ddiwydiant, sy'n defnyddio gwaith ymchwil at ddibenion masnachol. Nod Arbenigedd SMART yw meithrin amgylchedd ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n ymateb i'r galw drwy gefnogi a buddsoddi mewn prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol rhwng cyrff ymchwil a phartneriaid diwydiant yng Nghymru, i fynd i'r afael â heriau diwydiant sy'n strategol bwysig.

Ers 2016, mae Arbenigedd SMART wedi:

- cymeradwyo **19** o brosiectau
- cynnwys **92** o bartneriaid prosiectau
- defnyddio grantiau o **£9.8m**
- cyfrannu at brosiectau gwerth **£20.2m**

<u>Rhaglen Sêr Cymru</u>

Mae gweithredu Sêr Cymru yn dibynnu ar sawl elfen, gan gynnwys prosiectau amrywiol ein Cadeiryddion, ein Sêr Disglair a'n Cymrodyr a gefnogir o dan y cynllun. Caiff Rhaglen Sêr Cymru ei rhedeg ar sail dim cymorth, ac felly nid yw'n cael incwm uniongyrchol o'r sector

preifat. Fodd bynnag, mae wedi creu lefelau sylweddol o incwm ymchwil, a rhagwelir y bydd hynny'n parhau.

Buddsoddiad Sêr Cymru ac Elw ar y Buddsoddiad drwy Greu Incwm Ymchwil

- Yn 2012, ymrwymodd Llywodraeth Cymru **£50m** i Sêr Cymru dros gyfnod rhwng 2012 a 2020.

- Hyd yma, mae'r Cadeiryddion a'r rhwydweithiau wedi ysgogi **£178m** mewn incwm ymchwil.

- Yn 2015, defnyddiwyd bron i **£60m** ar gyfer ail ran y rhaglen (gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol). Mae'r ymrwymiad hwn yn para o 2015 tan 2023.
- Ein targed o ran incwm grant yn sgil y buddsoddiad hwn yw tua **£43m.**

- Yn 2019, cyhoeddwyd cyllid pellach o **£7.4m** (gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol) ar gyfer ein rhaglen.Mae'r ymrwymiad hwn yn para o 2019 tan 2023.

**Yr adolygiad mewnol o £100m ar gyfer gwella safonau ysgolion**

Gofynnais yn benodol i swyddogion sicrhau bod y cyllid o £100m yn cael ei alinio â'r meysydd blaenoriaeth rwyf wedi'u nodi yng nghynllun gweithredu Cenhadaeth ein Cenedl. Roeddwn wedi cael trafodaethau helaeth â'r prif randdeiliaid.

Yn unol â hyn, dyma'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20:

- Y Cwricwlwm ac Asesu - £1.7m
- Meithrin Gallu ym maes Arweinyddiaeth Addysgol - £3.2m
- Addysgeg - £14.810m
- Ymchwil a Gwerthuso - £0.440m
- System Hunanwella - £4.850m
- Lles - £0.5m

Fel y gwelwch, mae dros hanner y cyllid wedi'i neilltuo i flaenoriaethau sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol, gan mai dyma un o'r ffyrdd sylfaenol o hyd o godi safonau yn y dosbarth i bob disgybl. Fe welwch o'r gyllideb ddrafft mai fy mwriad yw darparu cyllid tebyg yn 2020-21.

Ni ddylem anghofio nad y £100m yw'r unig gyllideb i gefnogi codi safonau ysgolion. Fel yr amlinellais i'r Pwyllgor yn fy mhapur tystiolaeth, mae yna nifer o linellau gwariant eraill o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg sydd hefyd yn cefnogi codi safonau ysgolion, gan gynnwys: Llythrennedd a Rhifedd; y Grant Datblygu Disgyblion; y Cwricwlwm ac Asesu; Adolygu'r Cwricwlwm; Cymorth ar gyfer Safonau Ysgolion; a'r Grant Gwella Ysgolion.

**Grant dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig ac sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr**


Rwy'n benderfynol o sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyrraedd y safonau addysg uchaf posibl ac i ffynnu; mae hyn yn cynnwys plant o leiafrifoedd ethnig ac sy'n sipsiwn, Roma a theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid penodol am fwy na degawd i gefnogi'r broses o wella canlyniadau'r dysgwyr hyn. Mae hyn wedi helpu i ddatblygu a sefydlu cyfoeth o arbenigedd ac arferion da mewn ysgolion - drwy wasanaethau awdurdodau lleol ac mewn ysgolion.

Rwyf felly wedi dyrannu £10m ar gyfer 2020-21 i sicrhau ein bod yn parhau i gyllido awdurdodau lleol ar yr un sail â 2019-20. Penderfynir ar y goblygiadau ar gyfer ein Cyllideb y tu hwnt i 2020-21 fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr nesaf Llywodraeth y DU o Wariant a gynlluniwyd ar gyfer 2020.

Gallaf gadarnhau nad ydym bellach yn bwriadu prif-ffrydio'r arian hwn i setliad llywodraeth leol, ond parhau â'r cyllid grant yn unol â'r trefniant cyfredol. Ein blaenoriaeth yw gweithio gydag awdurdodau lleol i ddod o hyd i'r dull gorau o ddosbarthu'r cyllid hwn yn deg yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Hyderwn y bydd yr ymatebion hyn o gymorth ichi wrth ichi gwblhau'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education